

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Adroddiad ar y Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

Rhagfyr 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDCC

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
X: **@SeneddDCC**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad ar y Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

Rhagfyr 2025



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.

Ceir ei gylch gwaith yn www.senedd.cymru/SeneddDCC

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Alun Davies AS
Llafur Cymru



Samuel Kurtz AS
Ceidwadwyr Cymreig



Adam Price AS
Plaid Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod gwaith craffu ar y Bil.



Siân Gwenllïan AS
Plaid Cymru

Cynnwys

1. Cyflwyniad	5
Diben y Bil	5
Cylch gorchwyl y Pwyllgor	6
2. Cymhwysedd deddfwriaethol	8
Y goblygiadau o ran hawliau dynol	8
Ein barn ni	15
3. Sylwadau cyffredinol	18
Datblygu'r Bil a'r angen amdano	18
Ymgynghori	20
Asesiadau effaith	21
Amseriad cyflwyno'r Bil	22
Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth	24
Ein barn ni	24
4. Sylwadau penodol ar adrannau penodol o'r Bil ac Atodlenni penodol iddo	27
Crynodeb o'r Bil	27
Diffiniadau sy'n gysylltiedig ag ystyr rasio milgwn	28
Troseddau	29
Cychwyn	33
Adolygu	34
Ein barn ni	35

1. Cyflwyniad

Ar 29 Medi 2025, cyflwynodd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS (yr Ysgrifennydd Cabinet), y Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)¹ (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cydfynd ag ef.²

1. Ar 5 Awst 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chwaraeon, ac ar 23 Medi 2025, pennodd mai 5 Rhagfyr 2025 fyddai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar ei egwyddorion cyffredinol.³

2. Ar 8 Gorffennaf 2025, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad o fwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil (y datganiad o fwriad y polisi).⁴

Diben y Bil

3. Yn y Memorandwm Esboniadol, dywed yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Bil:

"... yn ei gwneud yn drosedd i weithredu stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru a'i ddefnyddio, neu ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio, ar gyfer rasio milgwn. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn drosedd i fod yn rhan o drefnu rasio milgwn yng Nghymru. Diffinnir "rasio milgwn" fel gosod milgwn i redeg o amgylch trac ar drywydd atyniad sy'n cael ei reoli'n fecanyddol, ac mae'n cynnwys amseru neu hyfforddi milgi wrth iddo redeg o amgylch trac."⁵

¹ Llywodraeth Cymru, [Bil Gwahardd Rasio Milgwn \(Cymru\)](#), fel y'i cyflwynwyd.

² Llywodraeth Cymru, [Bil Gwahardd Rasio Milgwn \(Cymru\)](#), Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, 29 Medi 2025

³ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Gwahardd Rasio Milgwn \(Cymru\)](#), Medi 2025

⁴ [Datganiad o Fwriad Polisi y Bil Gwahardd Rasio Milgwn \(Cymru\)](#), 29 Medi 2025

⁵ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 3

4. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet hefyd yn rhoi rhywfaint o gyd-destun i'r Bil, gan nodi'n benodol:

"Bwrdd Milgwn Prydain Fawr (GBGB) yw'r corff sy'n gyfrifol am lywodraethiant, rheoleiddio, a rheoli trwyddedau GBGB ar gyfer rasio milgwn yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yn 2025, deallir bod 19 trac milgwn sydd wedi'u trwyddedu gan GBGB ledled y DU. Mae un o'r traciau hyn yng Nghymru.

Stadiwm Milgwn Valley yn Ystrad Mynach yw'r unig drac rasio milgwn sydd ar ôl yng Nghymru. Fe'i hagorwyd ym 1976, ac roedd yn gweithredu'n annibynnol tan fis Awst 2023, pan gafodd ei drwyddedu gan y GBGB, gyda'i ras gyntaf o dan drwydded GBGB yn cael ei chynnal ym mis Tachwedd 2023.

*Rydym ar ddeall bod 10 hyfforddwr milgwn wedi'u lleoli yng Nghymru ar hyn o bryd sydd wedi'u trwyddedu gyda'r GBGB. Mae'r hyfforddwyr hyn yn rasio eu milgwn yn Valley yn bennaf. Mae cyfanswm o 12 hyfforddwr, dau ohonynt wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, yn gysylltiedig â'r stadiwm, gyda thua 265 o filgwn yn gymwys i rasio yn Valley."*⁶

5. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet hefyd yn nodi bod grŵp gweithredu wedi'i sefydlu i lywio'r trawsnewidiad tuag at waharddiad arfaethedig ac i roi cyngor ac arweiniad ymarferol i Weinidogion Cymru.⁷

Cylch gorchwyl y Pwyllgor

6. Cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Caiff y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder a materion allanol sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

7. Wrth graffu ar Filiau a gyflwynir i'r Senedd, byddwn yn ystyried:

⁶ Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.4 i 3.6

⁷ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.47. Gweler hefyd: Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Y grŵp gweithredu i lywio'r trawsnewidiad tuag at waharddiad ar rasio milgwn yng Nghymru](#), 11 Gorffennaf 2025

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys cydnawsedd â'r hawliau dynol a warchodir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn);
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth;
- a yw'r weithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi'i dewis mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth; ac
- unrhyw fater arall yr ydym o'r farn ei fod yn berthnasol i ansawdd deddfwriaeth.

8. Clywsom dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar 20 Hydref 2025.⁸ Ar ôl y sesiwn dystiolaeth, gwnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet ar 22 Hydref 2025 gyda chyfres o gwestiynau ychwanegol mewn perthynas â'r Bil.⁹

9. Cawsom ymateb gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar 4 Tachwedd 2025.¹⁰

⁸ [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion](#)

⁹ [Llythyr at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 22 Hydref 2025](#)

¹⁰ [Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 4 Tachwedd 2025](#)

2. Cymhwysedd deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.¹¹

10. Gwnaethom ystyried y Bil o dan y model cadw pwerau o gymhwysedd deddfwriaethol, fel y nodir yn adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

11. Yn ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol, dywedodd y Llywydd y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.¹²

12. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet yn ei dystiolaeth ei fod yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.¹³

Y goblygiadau o ran hawliau dynol

13. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi bod y Bil wedi'i ddrafftio gan roi sylw dyladwy i hawliau dynol.¹⁴

14. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet pa asesiadau oedd wedi'u cynnal mewn perthynas ag effeithiau'r Bil ar hawliau dynol, a beth oedd canlyniad yr asesiadau hynny. Dywedodd wrthym:

"We've fully considered human rights implications within the legislation. We're satisfied the Bill is compatible with the European convention on human rights, including article 1, protocol 1 and article 8. In addition to the explanatory memorandum ... a regulatory impact assessment was completed and published, and we'll also have additional impact assessments, which are being prepared, and they'll be kept under review in the passage of the Bill. I think this is important to say as well to the committee, because the work of the implementation group and the additional information that we have from the implementation group, including from Valley

¹¹ Y Memorandwm Esboniadol, Datganiad yr Aelod, tudalen 1

¹² Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol y Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru), 29 Medi 2025

¹³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [9]

¹⁴ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.40

stadium in particular, will help us modify and bring forward additional impact assessments. But we are confident ... that the Bill is compatible with the European convention on human rights.”¹⁵

15. Yna, gwnaethom ofyn a oedd rhaid cymryd camau penodol i gyfyngu ar ymyrraeth â hawliau dynol y rhai y mae'r Bil yn effeithio arnynt fel rhan o'r asesiad. Atebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“Yes, we do. In bringing forward this legislation, we need to make sure that we have a fair and proportionate balance between the protection of the rights of those affected by the Bill and the effectiveness of the proposed ban. So, this includes, for example, the potential for the repurposing of the track and also the long lead-in time that we've provided for the ban to take effect, subject to the advice from the implementation group. You will know that there's a period of time that they can introduce the ban from. So, the length of the lead-in time ensures that any impacts can be properly managed and mitigated, as far as possible.”¹⁶

16. Mae'r darpariaethau gorfodi yn Atodlen 2 i'r Bil yn ymwneud ag Erthygl 8 o'r Confensiwn, sef yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth. Yn ogystal, mae'r pŵer ymafael yn ymwneud ag Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf i'r Confensiwn, sy'n amddiffyn yr hawl i fwynhau eiddo yn heddychlon.

17. Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet at y pwerau gorfodi yn ogystal â'r gofynion ynghylch pwerau mynediad yn Atodlen 2 wrth ymateb i'n cwestiynau ynghylch y camau yr oedd rhaid eu cymryd er mwyn cyfyngu ar ymyrraeth â hawliau dynol y rhai y mae'r Bil yn effeithio arnynt. Dywedodd wrthym:

“... Schedule 2 has powers of entry, including powers to enter dwellings and powers of inspection and seizure, but these powers to enter the dwellings must be if the occupier in charge of the premises consents or if a warrant is obtained from the magistrate. There are further details on the obtaining of a warrant, then, in paragraph 3 of Schedule 2, for the conditions that need to be met. So, we're confident, (...) that we've taken

¹⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [65]

¹⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [67]

into account the human rights impacts but also how we can actually limit the interference with the human rights as well.”¹⁷

18. Bydd gwahardd rasio milgwn yn atal y trac yn Stadiwm Valley rhag cael ei ddefnyddio at y diben hwnnw, sy’n ymwneud ag Erthygl 1 o’r Protocol Cyntaf i’r Confensiwn (sy’n amddiffyn yr hawl i fwynhau eiddo yn heddychlon).

19. Gwnaethom ofyn i’r Ysgrifennydd Cabinet a fyddai’n deg dweud mai ei safbwynt yw, i bob pwrpas, y bydd y busnes sydd ar hyn o bryd yn gweithredu’r unig drac yng Nghymru yn dod i ben, a fydd yn effeithio ar hawliau dynol y rhai sy’n rhedeg y busnes, ond bod digon o fesurau lliniaru ar waith i sicrhau’r cydbwysedd cywir yn hynny o beth. Atebodd:

“So, what this legislation seeks to do is to ban greyhound racing, as described within the legislation as to what greyhound racing is. It does not actually preclude the use of that track whatsoever for repurposing for future use. We’ve built in time in order to mitigate and manage the impacts on that, so the owners can look to alternative uses, and this is exactly what we are hoping can be explored within the implementation group as well, alongside the local authority and other partners. So, with those mitigations and the fact we’ve built in a timescale as opposed to a firm implementation date, subject to the views of the implementation group, I think it manages those impacts on human rights. And just to emphasise again, it is the prohibition of greyhound racing not the prohibition of the use of that facility for different uses is what this legislation does.”¹⁸

20. Gwnaethom hefyd ofyn a yw’r hawl i fwynhau eiddo yn heddychlon yn cael ei hamddiffyn yn ddigonol yn y ddeddfwriaeth hon. Atebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“We have indeed, and I won’t rehearse again the measures we’ve taken to mitigate the human rights impact, but that includes the article 1 implications,¹⁹ and we’re very keen, I have to say, in the implementation group to work with Valley stadium. In fact, my officials have requested further information on things such as commercial contracts, et cetera, from the

¹⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [68]

¹⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [72]

¹⁹ Rydym wedi cymryd bod hyn yn cyfeirio at Erthygl 1 o’r Protocol Cyntaf i’r Confensiwn.

*implementation group on things such as attendance numbers, all of those considerations, so we have a really good understanding of the economic impact and so on (...) the track can be repurposed for other uses (...) but we're keen to assess from Valley stadium some of the social and economic and financial impacts of any closure, and we'll keep on working with them and asking them for that information to be provided. That's why we may bring along additional impact assessments as we go forward as well, when we have additional information."*²⁰

21. Gwnaethom holi ymhellach am rai o'r materion hyn mewn gohebiaeth.

22. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mewn perthynas ag Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf i'r Confensiwn, yn nodi "[e]fallai y bydd effaith negyddol ar berchnogion Valley Greyhounds, gan eu bod yn cael eu hamddifadu o ddefnyddio eu heiddo fel y dymunant"²¹. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd o'r farn bod y Bil yn gyfystyr ag amddifadu o eiddo mewn perthynas â Stadiwm Valley, ac atebodd:

*"Ein barn ni ar y ffeithiau fel yr ydym yn eu deall ar hyn o bryd yw nad yw'r gwaharddiad yn gyfystyr ag amddifadu eiddo. Mae'r asesiad effaith yn cydnabod y bydd y gwaharddiad yn golygu na fydd y perchnogion bellach yn gallu defnyddio'r eiddo ar gyfer rasio milgwn."*²²

23. Gwnaethom hefyd ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd o'r farn bod cyfyngu ar sut y bydd Stadiwm Valley yn gallu defnyddio ei eiddo yn rhywbeth sydd "er budd cyffredinol", at ddibenion Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf, ac os felly, a allai esbonio sut. Atebodd:

*"Rwy'n fodlon bod y gwaharddiad arfaethedig yn gyfiawn ac er budd cyffredinol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio cyd-destun a diben y Bil."*²³

²⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [74]

²¹ Llywodraeth Cymru, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru), Fersiwn 5 – Medi 2025, Cyhoeddwyd gyntaf, 1 Hydref 2025, tudalen 4 (cyfeirir ato ar wefan Llywodraeth Cymru fel Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru): asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol). Rydym wedi cymryd bod y cyfeiriad at Valley Greyhounds yn cyfeirio at Stadiwm Valley.

²² Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 4 Tachwedd, ymateb i gwestiwn 5

²³ Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 4 Tachwedd, ymateb i gwestiwn 6

24. Gwnaethom hefyd ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd o'r farn bod y gwaharddiad yn y Bil yn gymesur, ac a yw'n taro cydbwysedd teg rhwng buddiannau cyffredinol a buddiannau preifat Stadiwm Valley. Atebodd:

"Rwy'n fodlon bod y Bil yn taro cydbwysedd teg a chymesur rhwng diogelu hawliau'r rhai y mae'r Bil yn effeithio arnynt a'r budd cyffredinol. Mae hyn yn ystyried ystod o ffactorau gan gynnwys y potensial i addasu'r trac at ddibenion eraill a'r amser rhagarweiniol hir a ddarperir i'r gwaharddiad ddod i rym.

*Bydd hyd yr amser rhagarweiniol hwn yn sicrhau y gellir rheoli a lliniaru unrhyw effeithiau'n briodol cyn belled ag y bo modd. Byddwn yn parhau i asesu'r holl dystiolaeth a gwybodaeth a ddarperir yn ystod proses y Bil a byddwn yn adolygu hyn yn rheolaidd."*²⁴

25. O ran unrhyw ddewisiadau eraill a fyddai wedi cael effaith lai ymwthiol ar Stadiwm Valley, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym:

"Mae asesiad o opsiynau polisi, gan gynnwys eu costau a'u buddion cysylltiedig, wedi'i nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd. Ystyriwyd dewisiadau amgen, gan gynnwys y rhai sydd â llai o effaith ar Valley Stadium.

*Ymhlith y rhain roedd trwyddedu perchnogion, ceidwaid neu hyfforddwyr. Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol, ni fyddai'r dull hwn yn cyflawni'r prif amcan polisi o atal y risgiau sy'n gysylltiedig â rasio milgwn, gan gynnwys anafiadau, marwolaethau rasio a chanlyniadau gwael ar ôl rasio. Mae dadl foesegol hefyd yn cael ei chyflwyno dros waharddiad. Mae cefnogaeth y cyhoedd a rhanddeiliaid i wahardd rasio milgwn yn adlewyrchu awydd am newid ystyrlon."*²⁵

26. Fel y nodir ym mharagraff 22 o'r adroddiad, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cyfeirio at yr effaith negyddol bosibl ar berchnogion "Valley Greyhounds"²⁶ oherwydd efallai y byddant yn cael eu hamddifadu o ddefnyddio

²⁴ Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 4 Tachwedd, ymateb i gwestiwn 7

²⁵ Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 4 Tachwedd, ymateb i gwestiwn 7

²⁶ Rydym wedi cymryd bod hyn yn cyfeirio at Stadiwm Valley.

eu heiddo fel y dymunant. Y cyfiawnhad a roddir yn yr asesiad dros ymyrryd â'r hawliau o dan Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf yw bod "angen cydbwyso'r cynigion hyn yn erbyn atal anifeiliaid sy'n dioddef am chwaraeon"²⁷. O ystyried canlyniadau negyddol y gwaharddiad ar Stadiwm Valley, gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd yn fodlon bod yr asesiad yn ddigon manwl at ddibenion cyfiawnhau'r ymyrraeth â hawl Stadiwm Valley i fwynhau ei eiddo yn heddychlon. Atebodd:

"Yn ogystal â'r Memorandwm Esboniadol, mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol a nifer o asesiadau effaith wedi'u cwblhau a'u cyhoeddi. Byddwn yn parhau i asesu'r holl dystiolaeth a gwybodaeth a ddarperir yn ystod proses pasio'r Bil a byddwn yn adolygu'r Memorandwm Esboniadol, yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r asesiadau effaith yn rheolaidd.

*Rwy'n fodlon bod y Bil yn taro cydbwysedd teg a chymesur rhwng diogelu hawliau'r rhai y mae'r Bil yn effeithio arnynt ac effeithiolrwydd y gwaharddiad arfaethedig. Mae hyn yn ystyried ystod o ffactorau gan gynnwys y potensial i addasu'r trac at ddibenion eraill a'r amser rhagarweiniol hir a ddarperir i'r gwaharddiad ddod i rym. Bydd hyd yr amser rhagarweiniol hwn yn sicrhau y gellir rheoli a lliniaru unrhyw effeithiau'n briodol cyn belled ag y bo modd."*²⁸

27. Gwnaethom hefyd ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet pa asesiadau sydd wedi'u gwneud o'r contractau sydd ar waith ar hyn o bryd yn Stadiwm Valley, ac a oes unrhyw gontractau a fyddai ar waith y tu hwnt i'r dyddiad cynharaf y gallai gwaharddiad ddod i rym. Atebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

"Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth ddrafft yn nodi ein dealltwriaeth o'r effeithiau hyn. Ar hyn o bryd nid yw graddau rhai effeithiau yn hysbys yn llawn, gan gynnwys ar gyflogaeth, yr economi leol a chymunedau a diwydiannau eilaidd sy'n gysylltiedig â Valley Greyhound Stadium. Mae'n cydnabod cyfyngiadau'r data sydd ar gael ac yn tynnu sylw at feysydd lle bydd dadansoddiad pellach yn cael ei gynnal wrth i'r Bil symud yn ei flaen.

²⁷ Llywodraeth Cymru, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru), Fersiwn 5 – Medi 2025, Cyhoeddwyd gyntaf, 1 Hydref 2025, tudalen 4

²⁸ Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 4 Tachwedd, ymateb i gwestiwn 8

Rydym wedi gwranddo ar y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol gan y diwydiant, academyddion a rhanddeiliaid eraill. Byddwn yn parhau i asesu'r holl dystiolaeth a gwybodaeth a ddarperir yn ystod proses y Bil ac yn ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarperir i lywio ein hasesiadau ymhellach.

Mae effaith y gwaharddiad yn parhau i fod yn ystyriaeth allweddol, ac rydym yn ymgymryd â gwaith i asesu goblygiadau fel rhan o'n gwaith parhaus. Bydd yr asesiadau hyn yn cael eu hadolygu yn ystod hynt y Bil.”²⁹

28. Nododd hefyd y gofynnwyd ar sawl achlysur drwy'r grŵp gweithredu am wybodaeth fanwl gan Stadiwm Valley, ac ychwanegodd:

“Bwriedir i'r ddeddfwriaeth ddod i rym rhwng Ebrill 2027 ac Ebrill 2030. Mae'r cyfnod hwn yn rhoi amser i ystyried sut y bydd y diwydiant yng Nghymru yn dod â'i weithgareddau i ben ac yn caniatáu i'r Grŵp Gweithredu ein cynghori ynghylch a oes angen mynd i'r afael ag unrhyw feysydd allweddol yn ystod y cyfnod hwnnw yn barod ar gyfer gwaharddiad.”³⁰

29. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym nad oedd gwybodaeth am asesiadau sy'n ymwneud â chontractau wedi'i chynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb oherwydd:

“Mae'r asesiadau effaith yn destun adolygiad parhaus, a byddwn yn sicrhau bod yr asesiad effaith cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol yn adlewyrchu'r holl wybodaeth berthnasol a ddarperir inni.”³¹

30. Roeddem hefyd am gael gwybod a oedd yr Ysgrifennydd Cabinet o'r farn bod darpariaethau'r Bil yn effeithio ar hawliau perchnogion a cheidwaid milgwn sy'n rasio yng Nghymru ar hyn o bryd ac a oedd unrhyw asesiadau wedi'u cynnal. Atebodd:

²⁹ Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 4 Tachwedd, ymateb i gwestiwn 9

³⁰ Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 4 Tachwedd, ymateb i gwestiwn 9

³¹ Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 4 Tachwedd, ymateb i gwestiwn 9

“Mae goblygiadau hawliau dynol wedi cael eu hystyried mewn perthynas â phawb a allai darpariaethau'r Bil effeithio arnynt, gan gynnwys perchnogion a cheidwaid milgwn yng Nghymru.

Mae'r Bil yn gwahardd rasio milgwn yng Nghymru ac ni fydd yn atal pobl rhag fod yn berchen ar filgwn yng Nghymru na'u cadw, neu gyfyngu ar hynny. O ran perchnogion a cheidwaid sydd hefyd yn hyfforddwyr milgwn rasio, bydd y Bil yn eu gwahardd yng Nghymru rhag ymwneud â threfnu arferion hyfforddi sy'n cynnwys cymell milgwn i redeg o amgylch trac ar ôl llith sydd wedi'i actifadu'n fecanyddol.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi effeithiau, anafanteision a chostau cysylltiedig amcangyfrifedig darpariaethau'r Bil.”³²

31. Ailadroddodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd ei ateb blaenorol, ynghylch adolygu'r asesiadau effaith yn barhaus a sicrhau bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn adlewyrchu'r holl wybodaeth berthnasol a ddarperir i Lywodraeth Cymru.³³

32. O ran mater mwy cyffredinol, sef sut yr ystyriodd Llywodraeth Cymru Erthygl 8 o'r Confensiwn wrth ddatblygu'r Bil, gwnaethom holi'n benodol pam nad oedd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys unrhyw wybodaeth mewn perthynas â'r ymyrraeth â hawliau Erthygl 8. Atebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“Mae'r asesiadau effaith wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil ac maent yn destun adolygiad parhaus. Byddwn yn sicrhau bod yr asesiad effaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol yn adlewyrchu'r asesiad a gynhaliwyd mewn perthynas ag Erthygl 8.”³⁴

Ein barn ni

33. Nodwn dystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch materion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol.

³² Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 4 Tachwedd, ymateb i gwestiwn 10

³³ Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 4 Tachwedd, ymateb i gwestiwn 10

³⁴ Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 4 Tachwedd, ymateb i gwestiwn 4

34. Nodir un o'r gofynion y mae rhaid ei fodloni er mwyn i Fil fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn adran 108A(2)(e) o Ddeddf 2006. Mae'n nodi ei bod yn ofynnol i holl ddarpariaethau Bil fod yn gydnaws â'r Confensiwn.

35. Fel yr ydym eisoes wedi'i ddweud,³⁵ rydym o'r farn y dylid cynnwys asesiad o ymwneud unrhyw Fil â'r hawliau a warchodir gan y Confensiwn fel mater o drefn yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, a dylai'r asesiad hwnnw hefyd nodi unrhyw gamau a gymerwyd i liniaru unrhyw ymyrraeth.

36. Can nad yw'r wybodaeth honno ar gael, ac er mwyn deall yn well yr asesiad a gynhaliwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet a'i ddatganiad fod y Bil "wedi'i ddrafftio gan roi sylw priodol i hawliau dynol", gwnaethom ofyn cyfres o gwestiynau yn ystod y sesiwn dystiolaeth ac mewn gohebiaeth.

37. Nodwn farn yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru, wrth weithredu'r gwaharddiad ar rasio milgwn, wedi darparu amser i liniaru a rheoli effeithiau'r gwaharddiad fel y gall perchnogion Stadiwm Valley ystyried ffyrdd eraill o ddefnyddio'r cyfleuster.

38. Serch hynny, nodwn hefyd ei bod yn debygol y bydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar asesiadau effaith, eu bod yn destun adolygiad parhaus ac y bydd yr Ysgrifennydd Cabinet yn sicrhau bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol) yn adlewyrchu'r holl wybodaeth berthnasol a ddarperir i'r llywodraeth.

39. Rydym o'r farn bod cyflwyno Bil cyn cwblhau'r holl asesiadau effaith perthnasol yn llawn yn arfer deddfwriaethol gwael, yn enwedig o dan amgylchiadau lle gallai'r Bil effeithio ar hawliau dynol.

40. Rydym yn sôn yn fwy cyffredinol am y ffaith ei bod yn ymddangos bod yr asesiadau effaith yn anghyflawn ym Mhennod 3 o'r adroddiad hwn.

Argymhelliaid 1. Cyn y ddadl yng Nghyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn esbonio:

- sut y mae'r Bil yn gydnaws ag Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac Erthygl 1 o Brotocol 1 iddo;

³⁵ Gweler, er enghraifft, gasgliad 1 yn ein [Hadroddiad ar Fil y Cymraeg ac Addysg \(Cymru\)](#), casgliad 1 yn ein [Hadroddiad ar y Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig \(Cymru\)](#), casgliad 1 yn ein [Hadroddiad ar Fil yr Amgylchedd \(Ansawdd Aer a Seinweddau\) \(Cymru\)](#), a chasgliad 1 yn ein [Hadroddiad ar y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol \(Cymru\)](#).

- sut y lluniodd y farn honno, o ystyried nad yw'n ymddangos bod asesiadau effaith perthnasol wedi'u cwblhau'n llawn cyn cyflwyno'r Bil a'u bod yn destun adolygiad parhaus;
- pam y mae'n credu na fydd cwblhau'r asesiadau effaith yn effeithio ar ei farn bod y Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

3. Sylwadau cyffredinol

Datblygu'r Bil a'r angen amdano

41. Yn y Memorandwm Esboniadol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym:

“Mae cefnogaeth sylweddol gan randdeiliaid a'r cyhoedd i wahardd rasio milgwn, wedi'i sbarduno gan bryderon am les anifeiliaid. Mae llawer yn credu bod angen dod â'r arfer i ben er mwyn amddiffyn milgwn rhag niwed, ecsbloetio a masnachu. Mae pryderon lles a godwyd gan randdeiliaid yn cynnwys y gyfradd anafiadau a marwolaethau, ewthanasia, gorfridio a darpariaethau annigonol ar gyfer gofal ar ôl rasio ac ymddeol.

Y tu hwnt i'r materion lles, mae dadl foesol hefyd yn cael ei chyflwyno dros waharddiad, sy'n adlewyrchu gwerthoedd esblygol cymdeithas ynghylch trin anifeiliaid yn foesegol a'r ffaith bod y drwydded gymdeithasol ar gyfer diwydiannau yr ystyrir eu bod yn dibynnu ar ddioddefaint anifeiliaid ar gyfer adloniant yn dirywio. O ganlyniad i hyn, ystyrir ei bod yn fwyfwy anodd cyfiawnhau gwneud milgwn yn agored i niwed drwy rasio.

Fel yr amlinellir yng Nghynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021 i 2026, ein gweledigaeth yw i bob anifail gael bywyd da, lle mae ei anghenion corfforol ac emosiynol yn cael eu diwallu a lle mae'n cael ei amddiffyn rhag niwed. Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig i wahardd rasio milgwn yng Nghymru yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, lle roedd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cefnogi gwaharddiad graddol, ac mewn ymateb i ddeiseb³⁶ a lofnodwyd gan dros 35,000 o bobl, rydym yn cymryd camau pendant i ddiogelu lles milgwn rasio.

³⁶ Ym mis Mawrth 2022, dechreuodd y Pwyllgor Deisebau drafod ~~deiseb~~ yn galw am waharddiad ar rasio milgwn yng Nghymru ar sail pryderon am les anifeiliaid. Casglodd y ddeiseb, a gyflwynwyd gan Hope Rescue, 35,101 o lofnodion, 18,707 ohonynt o Gymru. Cyflwynwyd gwrth-~~ddeiseb~~ yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi rasio milgwn. Casglodd y ddeiseb honno 10,601 o lofnodion, 2,948 ohonynt o Gymru, ac fe'i trafodwyd gyntaf gan y Pwyllgor Deisebau ym mis Medi 2023.

Mae'r symudiad hwn i wahardd yn cyd-fynd â'n strategaeth ehangach i gyflwyno model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio sefydliadau a gweithgareddau lles anifeiliaid, gan sicrhau safonau cyson, cymesur a gorfodadwy ledled Cymru."³⁷

42. Wrth drafod dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r ddeddfwriaeth, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym ei fod wedi ystyried is-ddeddfwriaeth fel ffordd ymlaen; esboniodd, er bod *Deddf Lles Anifeiliaid 2006* yn darparu mesurau amddiffyn cyffredinol i anifeiliaid, nad yw'n cynnig fframwaith pwrpasol ar gyfer rasio milgwn a'i fod, o'r herwydd, wedi penderfynu bod angen deddfwriaeth sylfaenol.³⁸

43. Gwnaethom nodi bod cod ymddygiad ar gyfer lles cŵn, ac nad oeddem yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru erioed wedi ystyried bod y cod hwnnw'n annigonol. Wrth ymateb i'r sylw hwnnw, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym mai'r hyn sydd wedi newid yw bod ystyriaethau lles ar eu mwyaf arwyddocaol ym maes rasio milgwn, lle mae cŵn yn rhedeg o amgylch trac at ddibenion masnachol.³⁹ Ychwanegodd:

*"It's a significantly different level of jeopardy to animal welfare, many times resulting in injury and fatalities. So it takes it outwith (...) that broader scope of the legislation that's currently in place. That's why we feel that primary legislation specifically on greyhound racing is the right way forward."*⁴⁰

44. Pan wnaethom awgrymu bod Llywodraeth Cymru fel pe bai wedi llunio'r farn hon tua'r un pryd ag y cynhaliwyd adolygiad o'r gyllideb, yn hytrach na thua'r un pryd ag adolygiad mwy cyffredinol o faterion lles anifeiliaid, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad dyna oedd y sefyllfa.⁴¹ Wrth wneud hynny, tynnodd sylw at ganlyniadau ymgynghoriad a dau gwestiwn penodol iawn ynghylch rasio milgwn, a oedd yn dangos bod mwyafrif cryf o blaid symud tuag at waharddiad graddol ar rasio milgwn.⁴² Cyfeiriodd hefyd at y ddeiseb a gyflwynwyd i'r Senedd ac y cynhaliwyd dadl arni, lle gwelwyd cefnogaeth drawsbleidiol gref i'r gwaharddiad hwnnw ar rasio milgwn hefyd.⁴³ Aeth ymlaen i ddweud:

³⁷ Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.32 i 3.35

³⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [23]

³⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [28]

⁴⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [28]

⁴¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [30]

⁴² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [30]

⁴³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [31]

*"It was clear to me, based on what we'd heard through the consultation, what we'd heard from the view of the Senedd itself, and all other submissions that had come forward, that there was a clear need—based on those injuries and fatalities within greyhound racing—that we must move on that evidential basis to a ban on greyhound racing."*⁴⁴

45. Gwnaethom holi ymhellach am y mater hwn drwy ofyn pam yr oedd y Llywodraeth wedi penderfynu peidio â gweithio gyda'r diwydiant i chwilio am opsiynau heblaw gwaharddiad, megis gwella'r amodau, fel y mae'n ei wneud gydag elfennau eraill o les anifeiliaid.⁴⁵ Wrth ymateb, esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad yw'r ddeddfwriaeth yn cael ei rhuthro,⁴⁶ ac yna ychwanegodd:

*"It certainly does not rest on a petition coming to the Senedd, although that had strong cross-party support across the Senedd; it rests on the consultation, the responses there, the evidence that was put forward, but also GBGB's own analysis of the injuries and fatalities. This is a compelling case, on the basis of animal welfare and ethical grounds, to move to a ban on greyhound racing. So, I would simply argue, with real respect, it's neither draconian nor rushing through; it's timely, necessary."*⁴⁷

Ymgynghori

46. Gwnaethom nodi na fu unrhyw ymgynghori ar Bapur Gwyn na Bil drafft, a gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet ai cyfeirio ymgynghoriad amhenodol ehangach tuag at ddeddfwriaeth yw'r ffordd iawn i ddeddfu yng Nghymru. Atebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

"We are confident that the right questions were asked during that consultation, because there were two questions specific to greyhound racing, and one of them addressed the issue of views on either licensing or a ban. Now, there was certainly a good number of people who saw licensing as a way forward. Of those people who saw licensing as a way forward, a good number of them had a preference for actually moving to a ban."

⁴⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [32]

⁴⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [36]

⁴⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [37]

⁴⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [44]

*I just want to make that clear. But the preponderance, the majority view there, was to move to a ban. (...) it rests neither only on the consultation nor a petition, but on the clear and compelling evidence of the injuries and fatalities on tracks.*⁴⁸

47. Ychwanegodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet:

*"Yes. So, we did commit, in our response to the Petitions Committee, to consult on the ban on greyhound racing. That also was working alongside the wider work on animal activities and exhibits, and (...) rather than consult twice with the same audience, we included questions on greyhound racing in that wider consultation (...) and I think we had sufficient evidence back to get us to this position."*⁴⁹

48. Aeth yr Ysgrifennydd Cabinet ymlaen i ddweud:

*"... from my perspective, we responded to that consultation properly and then brought forward a considered response. But, as I say, it is for the Welsh Government (...) to decide whether, on those ethical grounds as well, we should move forward with a ban. But it certainly did rest on the responses we saw in that consultation."*⁵⁰

Asesiadau effaith

49. Fel y gwelir ym Mhennod 2 o'r adroddiad hwn, gwnaethom holi'r Ysgrifennydd Cabinet am yr asesiadau effaith a gynhaliwyd, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw oblygiadau o ran hawliau dynol sy'n deillio o'r Bil.

50. Wrth ymateb i'r cwestiynau hyn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i asesu ar sail gwybodaeth gan Stadiwm Valley rai o effeithiau cymdeithasol, economaidd ac ariannol unrhyw gynlluniau i gau, ac mai dyna pam y gallai rhagor o asesiadau effaith gael eu cyflwyno.⁵¹

51. Yn sgil ei sylwadau, gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd gwaith wedi'i wneud cyn i'r Bil gael ei gyflwyno. Atebodd:

⁴⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [48]

⁴⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [52]

⁵⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [53]

⁵¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [74]

“No, because the process that we’ve set in place with the stakeholder group enables that now to happen...”⁵²

52. Pan wnaethom awgrymu wrth yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai gofyn i Aelodau o’r Senedd bleidleisio ar Fil heb wybod, o bosibl, beth fydd effaith y Bil hwnnw, dywedodd:

“We’re bringing those impact assessments forward as soon as we have the information, and we hope to have them before the full progress of this Bill—I’m looking to my legal colleagues here—before we get to the final third reading, as we know.”⁵³

53. Gwnaethom nodi ei bod yn anarferol i Fil gael ei gyflwyno heb wybod beth fydd effaith bosibl y Bil hwnnw. Cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet, ond ychwanegodd nad yw hynny’n eithriadol, nac yn ddigynsail. Dywedodd fod rheswm dros fwrw ymlaen â hyn, a bod mecanwaith ar gael i ddiweddarau’r asesiadau effaith hynny.⁵⁴

54. Ychwanegodd swyddog a oedd gyda’r Ysgrifennydd Cabinet:

“... a full assessment was done before introduction. An RIA—a regulatory impact assessment—was completed. Further assessments have since been completed. Some have been published. But there is some information that we still don’t have, so the impact assessments will all be kept under review as the matter progresses, and they’ll be updated as and when we’re able to.”⁵⁵

Amseriad cyflwyno’r Bil

55. Gwnaethom ofyn i’r Ysgrifennydd Cabinet a oedd amseriad cyflwyno’r Bil yn gysylltiedig â’r ‘Cytundeb Cyllideb ar gyfer Cyllideb Derfynol 2025-26’.⁵⁶

⁵² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [78]

⁵³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [82]

⁵⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [84]

⁵⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [85]

⁵⁶ Llywodraeth Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Cytundeb Cyllideb ar gyfer Cyllideb Derfynol 2025-26, Llywodraeth Cymru a Jane Dodds AS, Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Mawrth 2025. Gweler hefyd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [54 i 55]

Gwnaethom nodi bod symud tuag at wahardd rasio milgwn yng Nghymru wedi'i gynnwys fel rhan o'r cytundeb hwnnw.⁵⁷

56. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet i'n cwestiynau ynghylch hynny drwy ddweud:

*"I understand your point, but let me just stress again: there are two parallel but separate processes going on, one of which is to do with budget considerations, (...) and the other one is the rights and wrongs of bringing forward legislation on the prohibition of greyhounds. I am very clear—very clear—on the rationale for this legislation (...) you are right, there were parallel discussions going on on budget things—it's not pertinent to me bringing forward this legislation. But I accept your point that this played into that separate process of discussions around consent for a budget process. But my bringing this forward is based on the ethical considerations, the injuries, the fatalities—all of the other things we've touched on."*⁵⁸

57. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet na fyddai am i'r Pwyllgor fod o dan unrhyw gamargraff bod cyflwyno'r Bil yn gysylltiedig ag ystyriaethau'r gyllideb,⁵⁹ ac aeth ymlaen i ddweud:

*"My consideration in bringing this forward is based on the animal welfare considerations and the ethical considerations. It was consulted on and there was a clear view expressed in that consultation. I have an obligation, as a Minister, to consider that and the Senedd debates and the other views that have been put forward."*⁶⁰

58. Dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol: "Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae gwaith ymgysylltu'n parhau."⁶¹ Felly, gwnaethom ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch hynny a dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

⁵⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [87 i 89]

⁵⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [90]

⁵⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [92]

⁶⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [94]

⁶¹ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 9.14

“Mae’r effaith ar y system gyfiawnder wedi’i hystyried, a chyflwynwyd Ffurflen Nodi’r Effaith ar y System Gyfiawnder i’r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Ymgynghorwyd ag Adran yr Arglwyddes Brif Ustus hefyd ynghylch yr effaith y rhagwelir y caiff y Bil ar y system gyfiawnder ac rydym yn aros am ymateb.

Rydym yn parhau i ymgysylltu â’r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Unwaith y bydd hyn wedi’i gwblhau, rwy’n bwriadu cyhoeddi’r JSII a byddaf yn adlewyrchu’r diweddariad yn y Memorandwm Esboniadol cyn Cyfnod 3.”⁶²

Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a’r hyn sydd i’w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth

59. Mae chwe adran a dwy Atodlen yn y Bil. Mae tabl 5.1 o’r Memorandwm Esboniadol yn nodi’r unig bŵer dirprwyedig yn y Bil, sydd yn adran 5(2), sy’n galluogi Gweinidogion Cymru i gychwyn darpariaethau’r Ddeddf, ac eithrio adrannau 5 a 6, drwy Orchymyn.⁶³

Ein barn ni

60. Nodwn resymeg yr Ysgrifennydd Cabinet dros gyflwyno’r Bil hwn. Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ar Bapur Gwyn na Bil drafft.

61. Nid ydym o’r farn bod yr ymgynghoriad y mae’r Ysgrifennydd Cabinet yn cyfeirio ato yn gwneud y tro yn hytrach na defnyddio dogfennau sy’n ceisio barn ar gynigion deddfwriaethol, sy’n golygu y gellir ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd fwy penodol.

62. Mae’n amlwg hefyd fod y Bil wedi’i gyflwyno cyn i’r holl asesiadau effaith perthnasol gael eu cwblhau.

63. Fel y gwnaethom nodi yn ein hadroddiad ar y Bil lechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru),⁶⁴ nid ydym o’r farn ei bod yn foddhaol nac yn briodol, yng nghyd-destun proses ddeddfwriaethol y Senedd, peidio â llunio neu gyhoeddi

⁶² Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 4 Tachwedd, ymateb i gwestiwn 2

⁶³ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 21

⁶⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, [Adroddiad ar y Bil lechyd a Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#), Hydref 2024

manylion llawn a chadarn am effaith Bil mewn pryd ar gyfer ei ystyried gan y Senedd yng Nghyfnod 1. Gwnaethom nodi yn yr adroddiad hwnnw:

“Mae peidio â bod â'r wybodaeth hon ar gael ar adeg cyflwyno'r Bil yn naturiol yn atal craffu arno yn ystod Cyfnod 1 pan fydd Aelodau o'r Senedd yn ystyried anghenraid ac egwyddorion cyffredinol y ddeddfwriaeth arfaethedig. Yn ogystal â difreinio Aelodau o'r Senedd, mae hefyd yn difreinio rhanddeiliaid sy'n dymuno cyfrannu a gwneud sylwadau ar y Bil a'i effaith bosibl, a hefyd i awgrymu sut y gellid ei wella.

Yn ein barn ni, byddai'n ymddangos yn briodol y dylai'r gwaith o ddatblygu'r cynigion deddfwriaethol gael ei lywio gan ganlyniadau asesiadau effaith ac, yn unol â hynny, y dylai'r gwaith o'u paratoi gael ei gwblhau cyn cyflwyno Bil. Dylid ystyried hyn fel arfer safonol, yn hytrach na “senario ddelfrydol”.⁶⁵

64. Mae'r sylwadau hyn yn gymwys yn yr un modd i'r Bil hwn.

65. Rydym hefyd yn sylwi nad oedd gwahardd rasio milgwn wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd yn 2021,⁶⁶ ond cafodd ei gynnwys wedi hynny yn y cytundeb cyllideb terfynol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025.⁶⁷ Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio'n benodol at y cytundeb hwnnw ar hyn o bryd.

66. Rydym yn cydnabod y bydd achlysuron pan allai fod yn angenrheidiol neu'n briodol cyflwyno deddfwriaeth nad oedd wedi'i chynllunio'n wreiddiol ar ddechrau Senedd, neu fel mater o frys. Fodd bynnag, er tryloywder ac atebolrwydd, ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd, dylid darparu esboniad llawn o'r rhesymau dros gyflwyno Bil, lle bynnag y bo modd, yn y Memorandwm Esboniadol, gan dynnu sylw, lle bo'n berthnasol, at ddogfennau sy'n cyfeirio at y sail ar gyfer y cynigion deddfwriaethol.

67. Felly, mae'n ymddangos i ni, o ystyried bod y Bil wedi'i gyflwyno ym mis Medi 2025, fod rhai o'r camau paratoadol y byddem fel arfer yn disgwyl i Lywodraeth

⁶⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#), Hydref 2024, paragraffau 57 i 58

⁶⁶ Llywodraeth Cymru, [Rhaglen Lywodraethu: diweddariad](#), 7 Rhagfyr 2021

⁶⁷ Llywodraeth Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Cytundeb Cyllideb ar gyfer Cyllideb Derfynol 2025-26, Llywodraeth Cymru a Jane Dodds AS, Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Mawrth 2025.

Cymru eu cymryd cyn ei gyflwyno naill ai heb eu cwblhau ymlaen llaw neu wedi'u gwneud ochr yn ochr â chyflwyno'r Bil. Yn ein barn ni, mae hyn yn cynrychioli gwyriad oddi wrth arfer da cydnabyddedig ac yn cynyddu'r risg o ganlyniadau anfwriadol gan fod llai o gyfle ar gyfer dull trylwyr a dilyniannol o ddatblygu polisïau a chraffu.

Casgliad 1. Rydym o'r farn bod dull Llywodraeth Cymru o ddeddfu i wahardd rasio milgwn, mewn sawl ffordd, wedi methu â chyrhaedd y safon o ran arfer deddfwriaethol da y byddem fel arfer yn ei ddisgwyl.

Casgliad 2. Fel mater cyffredinol o egwyddor, rydym yn ystyried ei bod yn arfer da na ddylid cyflwyno Bil i'r Senedd fel arfer nes bod yr holl asesiadau effaith perthnasol, cyn belled ag y bo'n ymarferol, wedi'u datblygu'n ddigonol i gynnwys eu canfyddiadau allweddol yn y Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo gyd-fynd â Bil yn unol â Rheol Sefydlog 26.6. Yn yr achos hwn, nid yw'n ymddangos bod yr egwyddor honno wedi'i dilyn yn llawn, ac rydym yn ystyried hynny'n destun gofid.

68. Dywedwyd wrthym fod Llywodraeth Cymru yn dal i ddisgwyl i rywfaint o wybodaeth gael ei chasglu, ac felly y bydd angen adolygu'r asesiadau effaith yn barhaus a'u diweddarau. Os cytunir ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1, dylid rhoi'r diweddariadau hyn yn uniongyrchol i Aelodau o'r Senedd yn hytrach na chyhoeddi dogfennau diwygiedig ar wefan Llywodraeth Cymru yn unig.

Argymhelliad 2. Os cytunir ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet osod Datganiadau Ysgrifenedig mewn da bryd cyn y dyddiadau cyflwyno ar gyfer trafodion Cyfnod 2 a Chyfnod 3, gan roi manylion unrhyw ddiweddariadau i'r asesiadau effaith a nodi'n glir unrhyw effaith ar y darpariaethau yn y Bil.

4. Sylwadau penodol ar adrannau penodol o'r Bil ac Atodlenni penodol iddo

Crynodeb o'r Bil

69. Mae adran 1 yn creu dwy drosedd newydd.

70. Mae adran 1(l)(a) yn ei gwneud yn drosedd i weithredwr stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru ei ddefnyddio, neu ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio gan wybod ei fod yn gwneud hynny, i "rasio milgwn". Mae adran 1(l)(b) yn ei gwneud yn drosedd i berson fod ynghlwm wrth drefnu rasio milgwn yng Nghymru. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn egluro "boed hynny mewn stadiwm neu leoliad tebyg, neu unrhyw le arall, er enghraifft ar dir agored".

71. Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (l) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy. Nid yw'r Bil yn gosod terfyn ar y ddirwy. Bydd angen i lefel y ddirwy ystyried y Canllawiau Dedfrydu ac adlewyrchu difrifoldeb y drosedd ac amgylchiadau'r troseddwr.

72. Mae adran 2 yn diffinio "rasio milgwn" a "gweithredwr".

73. Mae adran 3 yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch troseddau o dan adran 1 a gyflawnir gan gyrff corfforedig, partneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig ac eithrio partneriaethau.

74. Mae adran 4 yn cyflwyno Atodlen 2, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch gorfodi troseddau o dan adran 1.

75. Mae'r darpariaethau gorfodi yn rhoi i 'arolygydd' bŵer i fynd i fangre heblaw annedd, pŵer i wneud cais am warant i fynd i annedd, pwerau arolygu a phŵer ymafael.

76. Mae paragraff 1 o Atodlen 2 yn diffinio "arolygydd" fel person a benodir gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru neu gan Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn diffinio "pŵer mynediad" a "mangre".

77. Mae paragraff 3 o Atodlen 2 yn rhoi pŵer i arolygwyr i fynd i anheddau. Dim ond os yw'r meddiannydd neu'r person sy'n gyfrifol am y fangre yn cydsynio, neu os yw'r arolygydd yn cael gwarant gan Ynad, y caiff yr arolygydd ddefnyddio'r pŵer hwn. Caniateir dyroddi gwarant os oes seiliau rhesymol dros amau naill ai:

- i. bod trosedd o dan adran 1 yn cael ei chyflawni, wedi ei chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni yn y fangre, neu os gellir dod o hyd i dystiolaeth yn y fangre fod trosedd o dan adran 1 yn cael ei chyflawni, wedi ei chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni; a
- ii. bod un o bedwar amod yn cael ei fodloni.

78. Mae paragraff 12 o Atodlen 2 yn ei gwneud yn drosedd methu â chydymffurfio â gofyniad am gymorth a wneir yn rhesymol o dan baragraff 9(c) o Atodlen 2, neu rwystro rhywun arall yn fwriadol wrth iddo arfer swyddogaeth o dan Atodlen 2. Mae person sy'n euog o drosedd o dan y paragraff hwn yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

79. Mae adran 5 yn darparu ar gyfer dod â'r Bil i rym ac yn darparu bod rhaid dod â'r Bil i rym yn llawn ar ddiwrnod nad yw cyn 1 Ebrill 2027 ac nad yw ar ôl 1 Ebrill 2030.

Diffiniadau sy'n gysylltiedig ag ystyr rasio milgwn

80. Gwnaethom nodi nad yw "milgi" wedi'i ddiffinio ar wyneb y Bil, a gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a allai hyn achosi unrhyw broblemau. Dywedodd wrthym:

*"No, I've got no concerns with this. (...) Greyhounds have very clear characteristics, they're very well known, not least by the Kennel Club. It's not like some of the difficulties around breeds of dangerous dogs, as defined within the dangerous dogs legislation. All racing greyhounds are registered with the British and Irish greyhound book, so we don't think that this is an area for any concern. A greyhound is a greyhound is a greyhound."*⁶⁸

81. Gwnaethom nodi bod y drosedd yn adran 1(1)(a) o'r Bil yn ymwneud â gweithredwr stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru, ond gwnaethom awgrymu nad yw "lleoliad tebyg" wedi'i ddiffinio'n ddigon clir yn y Bil. Atebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

"The term 'similar venue' we've used is to ensure that the prohibition captures all settings used for greyhound racing, not only purpose-built stadiums. So, the policy objective here (...), is to cover all those forms of greyhound racing at tracks. So, it

⁶⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [111]

would include commercial racing, amateur racing, hobby events of greyhound racing around a track or a similar venue. So, the policy intent here is the prohibition of tracks beyond purpose-built stadiums. So, it will not only apply to, in this instance, Valley stadium, but it will extend to, for example, training or trialling activities involving mechanical lures at any venue set up for the racing of greyhounds.”⁶⁹

82. O ran ystyr “llith mecanyddol”, dywedodd swyddog a oedd gyda’r Ysgrifennydd Cabinet wrthym:

“There’s no definition of mechanical lure in the Bill, but we’re satisfied that it’s clear in what it means. It’s a well-known term in the industry of greyhound racing.”⁷⁰

83. Dywedodd y swyddog hefyd mai’r llith mecanyddol yw’r elfen sydd ei hangen er mwyn i’r gweithgaredd ddod o fewn cwrdd y gwaharddiad.⁷¹

84. Pan wnaethom ofyn i’r Ysgrifennydd Cabinet a oedd yn fodlon bod y diffiniad o “rasio milgwn” yn ddigon clir yn y Bil, atebodd:

“Yes, we are. Because of the reference to greyhound racing in a stadium or similar venue, the use of a mechanical lure around a track, this is what would be characteristic of greyhound racing, so it very much captures the policy intent.”⁷²

85. Dywedodd hefyd:

“Just to point out that the high degree of jeopardy here, and to clarify for the committee why we’ve defined it in this way, is when the bends are taken. That’s when the falls happen, the injuries happen, and the fatalities by and large.”⁷³

Troseddau

86. Gwnaethom drafod troseddau o dan y Bil â’r Ysgrifennydd Cabinet, gan gynnwys diffiniadau perthnasol.

⁶⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [113]

⁷⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [118]

⁷¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [116]

⁷² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [120]

⁷³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [115]

87. Gwnaethom ofyn am eglurhad ynghylch ai dim ond gweithredwyr a threfnwyr fyddai'n atebol am unrhyw droseddau o dan y Bil, yn hytrach na mynychwyr, cystadleuwyr neu unigolion eraill sy'n bresennol, ac a yw hyn yn glir yn y Bil. Atebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"Yes (...) We're satisfied that it's sufficiently clear on the face of the Bill. We're also satisfied that it's the right way to proceed, because then you have legally actionable consequences from this on the operator and the organiser, who we are confident would not be difficult to identify either. Rather than going after every participant, every attendee (...) you go after the people who are active in operating and organising the event, whether that is within an organised stadium or, as we've previously discussed, not in a stadium but is clearly greyhound racing."*⁷⁴

88. Gwnaethom hefyd ofyn a yw'r termau "gweithredwr" a "trefnydd" wedi'u diffinio'n ddigon clir yn y Bil. Dywedodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet:

*"'Operator' is defined in the Bill as the owner of a stadium or venue, or the person, other than the owner, with overall responsibility for the operation of the stadium or venue if that person is not present in the UK. We're content that that definition is very clear. 'Organiser' is not defined in the Bill, however we're content that it's also clear it's intended to have the ordinary meaning of the word."*⁷⁵

89. O ran Atodlen 2 i'r Bil, gwnaethom nodi bod diffiniad o "mangre" wedi'i gynnwys, sy'n cyfeirio at gerbyd ac yn cyfeirio at berson "yr ymddengys ei fod yn gyfrifol am y cerbyd". Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet esbonio at beth yn union y mae hynny'n cyfeirio, ac a yw'r geiriad yn caniatáu i berson o'r fath gael ei adnabod yn briodol. Dywedodd wrthym:

*"Yes, we do think this is sufficient, that the person could be clearly identified. And just to say, it isn't novel; it is found in other legislation as well."*⁷⁶

⁷⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [124]

⁷⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [126]

⁷⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [131]

90. Esboniodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet pam y mae'r cyfeiriad at gerbyd yn berthnasol:

*"It's just to cover all the bases, really. So, if they're out on a common and they've set up a track to illegally race greyhounds, there wouldn't be any premises there as such, but there would be vehicles where evidence could be gathered from."*⁷⁷

91. Amod 4 ym mharagraff 3 o Atodlen 2 i'r Bil yw "bod meddiannydd y fangre yn absennol dros dro" ac "y gallai aros i'r meddiannydd ddychwelyd drechu diben mynd i'r fangre". Gwnaethom ofyn am esboniad o ystyr y ddarpariaeth hon a sicrwydd bod geiriad yr amod hwn yn ddigon clir. Atebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"Yes, indeed, and, again, neither is this novel. It has got precedent within other legislation. So, the approach here is that if that individual, if the occupier of the premises, is temporarily absent—so, you can imagine the situation—but enforcement action is necessary, then you can take that action without, in layperson's terms, waiting for them to return. But a court would need to be satisfied that the conditions laid out within the legislation were met before issuing such a warrant."*⁷⁸

92. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd yn fodlon bod Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â phob senario bosibl, neu wedi meddwl am bob senario bosibl, yn y ddeddfwriaeth hon, gan gofio efallai na fydd eiddo i fynd iddo wrth gymryd camau gorfodi. Dywedodd:

"... from our perspective, there will either be premises, as in premises we would identify as buildings, or there would be vehicles, and we've covered both of those bases. So, we can't envisage easily (...) an alternative where we may need to talk about powers of entry and enforcement, but you can certainly envisage a situation where, if somebody foolishly decided to flout the legislation and decided to run greyhound racing in an open field somewhere (...) then the powers within this Bill would allow the enforcement action to be taken. I can't think of

⁷⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [136]

⁷⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [142]

something that we've missed on that, but, if the committee has some idea, we'd be keen to hear your thoughts on that."⁷⁹

93. Gwnaethom ofyn dau gwestiwn pellach am droseddau mewn gohebiaeth ddilynol. Yn gyntaf, gwnaethom ofyn, os oes cwestiynau ynghylch brîd ci, pwy fyddai'n pennu'r brîd at ddibenion gorfodi'r troseddau yn y Bil. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym:

"Byddai arolygydd yn pennu'r brîd at ddibenion gorfodi adran 1 o'r Bil.

Darperir pwerau gorfodi i arolygwyr yn adran 4 ac atodlen 2 o'r Bil. Mae'r pwerau gorfodi yn cynnwys pwerau mynediad a phwerau i archwilio.

Wrth arfer y pŵer mynediad yn adran 4 ac atodlen 2, caiff arolygwyr fod yng nghwmni personau eraill lle bo hynny'n briodol, i gefnogi yn ôl yr angen."⁸⁰

94. Yn ail, gwnaethom nodi bod y Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn dweud y gallai'r drosedd o dan adran 1(1)(b) o drefnu rasis milgwn yng Nghymru gynnwys trefnu ras o'r fath ar "dir agored". Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a yw'r Bil yn ddigon clir o ran yr hyn y gallai'r drosedd hon ei gynnwys, ac atebodd:

"Mae adran 1 o'r Bil yn cyflwyno dwy drosedd newydd. Mae'r un gyntaf, yn adran 1(1)(a), yn ei gwneud hi'n drosedd i weithredwr stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru ei ddefnyddio, neu dan wybod iddo ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio, i rasio milgwn.

Mae'r ail, yn adran 1(1)(b), yn ei gwneud hi'n drosedd i berson fod yn rhan o drefnu rasis milgwn yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys mewn stadiwm neu leoliad tebyg neu unrhyw le arall.

Os yw'r digwyddiad yn cynnwys trefnu rasis milgwn unrhyw le lle mae milgwn yn cael eu cymell i redeg o amgylch trac ar ôl llith sydd wedi'i actifadu'n fecanyddol, bydd yn dod o fewn cwmpas y troseddau. Mae hyn yn adlewyrchu amcan

⁷⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [144]

⁸⁰ Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 4 Tachwedd, ymateb i gwestiwn 11

allweddol y Bil i gynnwys rasio milgwn o amgylch trac yn unrhyw le arall.

Nid yw'r term 'tir agored' yn cael ei ddefnyddio yn y Bil. Cyfeirir at dir agored yn y nodyn esboniadol fel enghraifft o leoedd eraill y gallai gweithgareddau rasio milgwn ddigwydd.”⁸¹

Cychwyn

95. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet pam yr oedd wedi cynnig cyfnod cychwyn rhwng 1 Ebrill 2027 ac 1 Ebrill 2030. Dywedodd:

“I think it's a recognition that, as we've discussed before, we do not want this track lying empty and unused. That's one of the things that we're trying to avoid. But, in working through that, I think it is right that we engage not only with the owners, but with the local authority and others, to look at future use and repurposing of this (...) We are looking for some further data and evidence that we need for some of our thinking on the impact assessments and so on (...) So, we think that (...) that three-year period gives sufficient time to actually work through these implications and for the track and for industry stakeholders and for GBGB to prepare for the transition to a ban.”⁸²

96. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod o'r farn bod y dull hwn yn deg ac yn gymesur a'i fod yn sicrhau cydbwysedd o ran yr ystyriaethau hawliau dynol hefyd.⁸³

97. Gwnaethom nodi nad yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ynghylch pryd y bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r dyddiad cychwyn. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym nad oedd yn rhagweld y byddai ymgynghori ar hynny, ac ychwanegodd:

“I think this will be a matter—subject to the consideration of the implementation group and the advice they bring forward—for this or a future Minister to actually say, ‘This now seems the reasonable and fair date for the plan to be in place’, and then

⁸¹ Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 4 Tachwedd, ymateb i gwestiwn 12

⁸² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [148]

⁸³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [150]

to move to a future use. So, no, not another consultation on this.”⁸⁴

Adolygu

98. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud mai “[a]mcan y polisi yw cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd rasio milgwn. Os caiff ei chymeradwyo, bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei hadolygu dim hwyrach na phum mlynedd ar ôl iddi ddod i rym”⁸⁵. Nid yw'r Bil yn darparu ar gyfer adolygiad o'r fath. Felly, gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet sut y bydd yn sicrhau bod yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal. Esboniodd:

“Er nad yw'r Bil yn cynnwys gofyniad statudol ar gyfer adolygiad ôl-weithredu o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac nid yw'n sefydlu systemau neu ddyletswyddau adrodd newydd a fyddai'n gofyn am ddarpariaeth o'r fath, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i arferion da wrth werthuso polisi. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal o fewn pum mlynedd i'w gychwyn, gyda gweithgarwch gwerthuso yn dechrau o 12 mis ar ôl i'r Bil ddod i rym.

Bydd yr adolygiad yn anelu at fesur a yw'r amcanion polisi yn cael eu cyflawni ac at nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn unol ag egwyddorion Llywodraeth Cymru argyfer ymchwil a gwerthuso.

Bydd adolygiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth yn chwarae rhan allweddol wrth fonitro effeithiau'r gwaharddiad. Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i effeithiolrwydd mecanweithiau gorfodi, canlyniadau anfwriadol ac effaith ehangach y ddeddfwriaeth a bydd hyn yn llywio penderfyniadau polisi parhaus.

Bydd adolygiad ôl-weithredu penodol o unrhyw gamau gorfodi o ganlyniad i'r Bil yn cael ei gynnal o fewn 3 blynedd i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder.”⁸⁶

⁸⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [152]

⁸⁵ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.1

⁸⁶ Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 4 Tachwedd, ymateb i gwestiwn 3

Ein barn ni

99. Nodwn dystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch y diffiniadau a ddefnyddir yn y Bil, y troseddau sydd i'w creu, y darpariaethau cychwyn a'r cwmpas ar gyfer adolygu'r ddeddfwriaeth.

100. Carem wneud y sylwadau a ganlyn.

101. Nodwn fod yr Ysgrifennydd Cabinet yn dweud yn y Memorandwm Esboniadol: "Dim ond gweithredwyr a threfnwyr fydd yn atebol am droseddau o dan y Bil"⁸⁷.

102. Credwn y dylai'r datganiad hwn ddweud mai dim ond gweithredwyr a threfnwyr fydd yn atebol am droseddau o dan adran 1 o'r Bil. Mae hyn oherwydd ei bod yn ymddangos i ni y gallai unrhyw un fod yn euog o drosedd o dan baragraff 12 o Atodlen 2.⁸⁸

Argymhelliad 3. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau pa bersonau sy'n atebol am droseddau a gyflawnir o dan adran 1 o'r Bil a pharagraff 12 o Atodlen 2 i'r Bil, ac, os yw hynny'n briodol, dylai ddiweddarau'r Memorandwm Esboniadol yn unol â hynny.

103. Rydym hefyd o'r farn y gallai fod gwall drafftio yn y Bil. Mae paragraff 12(2) o Atodlen 2 yn dweud: "Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy". Credwn y dylai'r cyfeiriad at "yr adran hon" fod yn gyfeiriad at "y paragraff hwn".

Argymhelliad 4. Os bydd angen, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil i roi "y paragraff hwn" yn lle "yr adran hon" ym mharagraff 12(2) o Atodlen 2.

104. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym y bydd adolygiad yn cael ei gynnal o fewn pum mlynedd i gychwyn y ddeddfwriaeth, ac y bydd gweithgarwch gwerthuso yn dechrau o 12 mis ar ôl i'r Bil ddod i rym. Nodwn hefyd sylw'r Ysgrifennydd Cabinet y bydd adolygiad ôl-weithredu yn chwarae rhan allweddol wrth fonitro effeithiau'r gwaharddiad. Fodd bynnag, fel y cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet, nid yw'r Bil yn cynnwys gofyniad statudol ar gyfer adolygiad ôl-weithredu o'r fath. Felly, nid oes sicrwydd y byddai unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn cynnal adolygiad o'r fath.

⁸⁷ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.44

⁸⁸ Y Memorandwm Esboniadol, Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol, paragraff 27

Argymhelliad 5. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu ar gyfer adolygiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth.